Cyfres Llanbedr | Hydref, 1928. | Cyf. 28. Rhif 10.

Profwch bob peth: Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynnydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y Golygydd. Y Parch T. Oswald Williams.

— Cynnwys. —

Cau a Chloddio.
Pentref Llanwnnen.
Cawdel.
Perlau Moliant.—Adolygiad
Urdd y Benywod.
Marwgofion.
Nodion yr Eglwysi.
Y Cyfarfodydd Chwarterol.

Y Gwirionedd a'ch rhyddha chwi.

Argraffwyd gan J D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis ; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—
Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

YN AWR YN BAROD.

Gyrrwch archeb yn union am
Y LLYFR EMYNAU NEWYDD—

PERLAU MOLIANT

(SOLFFA)

CASGLIAD O EMYNAU A THONAU AT WASANAETH EGLWYSI UNDODAIDD CYMRU.

Prisiau :—
Lledr Hanner Rhwym, 4/6. | Lledr Llawn Rhwym, 5/6.
Lledr Morocco ac India Paper, 7/-.
Cludiad copiau unigol, 6ch. yn ychwanegol.

Derbynir archebion (*gyda blaendal*) oddiwrth Eglwysi a phersonau unigol yn awr. Anfoner at—
J. D. LEWIS, SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

CHANNING HOUSE SCHOOL

HIGHGATE, LONDON, N.6.

Public School for Girls.

For Particulars apply to THE HEAD MISTRESS.

T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.

Yr Ymofynnydd.

- - Cylchgrawn Misol - -
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

Cyfres Llanbedr. HYDREF, 1928. Cyf. XXVIII. Rhif 10.

Cau a Chloddio.

DDOE bum yn dal pen rheswm â chrefftwyr yn cau a chloddio —dwy grefft na ŵyr nemor i Gymro fawr am danynt bellach. Gynt gwyddid y grefft a chaech weithiwr yn medru cymryd *pans* yn ei waith fel y dylasai pob crefftwr. Yr oedd cau yn grefft 'slawer dydd. Nid felly heddiw ond gan yr ychydig ac y maent yn prinhau bob blwyddyn. Y mae'r *brys* a'r *mynd* yn lladd crefft a'r drwg am dani yr ym wrth golli'r grefft yn colli'r cyfleu i fynegi ein hunain. Nid yw'r dyn ond yn dangos yn ei waith yr hyn y sydd ynddo ef ei hun, ac y mae rhywbeth yn fâs ac arwynebol yn enaid y dyn *lletwith*.

Nid yw bilwg a phigau yn offer crefftwr. Nid ynt yn ddigon i gau. Offer y mynd a'r brys ydynt. Torri draenen neu gropyn eithin, gwthio piged o ddrysi i dwll, dyna yw cau heddiw. O bydd y clawdd yn ddrwg iawn, fe roir rhyw sham o bost bach eiddil a weier bigog i'w ddal i'r lan. Nid oes grefft ar gau felly. Nid yw ond awgrym o'r mynd sydd yn ein byd ni weithian a ninnau wedi anghofio'r grefft o gau a chloddio. Medrir mynd i ambell ardal y sydd heb anghofio'r grefft a chewch weld perth wedi'i phlygu a champ arni. Ni wn i am ddim prydferthach na pherth wedi'i phlygu felly ac y mae cymaint o grefft mewn hynyna ag mewn unrhyw beth y gwn i amdano.

Yr oem ninnau'n cau a chloddio ac ni wnai cropyn eithin na barbyn mo'r tro. Ni fynnem mo'r ffashwn newydd spon. Yr oedd rhaid cael crefft a phob un yn cau ;—a'r cau yn llafur cariad,— nid am fis na blwyddyn ond am genhedlaeth o leiaf, a bydd rhywrai heb eu geni eto yn ein barnu ni wrth y cau a'r cloddio hwn.

Y mae'n werth gwylio crefftwr wrth ei waith ac ni rydd dim fwy o bleser i mi na gwylio unrhyw grefftwr. Mor ddidaro y gweithia. Mor rhwydd yr ymddengys y gwaith. Yr ych yn teimlo y medrech chwi ei wneuthur o weld mor rhwydd ydyw.

Nid oes galw am frys na thwrw. Gŵyr y crefftwr ei waith a gwyddent hwythau'r grefft o gau. Mor hamddenol y torrid tyllau'r pyst tyn—hen byst o ruddin deri a phobun yn ddidaro ddigon o gofio'r stormydd gynt ag yntau yn y dderwen. Rhoid un ymhob cornel a rhag iddynt ffafrio y naill ochr neu'r llall, gosodid y *stayers*—rhyw Aron a Hur i ddal breichiau Moses i fyny pe digwyddai fod gormod o straen arno. Wedi sicrhau y pedwar hyn ni raid trwblu fawr. Rhoid y pyst eraill bob dwylath ac mor debig yr edrychent i wyliedyddion Rhufain, union fel y saeth, pob un yn sefyll yn unionsyth ar ei droed ei hun heb bwyso ar ei gymydog na phlygu'i ben i sibrwd cyfrinach yng nghlust ei gymydog drws nesaf.

O edrych o bost tyn i bost tyn gallasech feddwl nad oes dim rhyngddynt. Y maent fel un. Dyna'r grefft—torri a naddu'r polion fel na fedrwch dynnu un oddiwrth y llall a'u gyrru adref nes bod pob cnoc yn diaspedain drwy'r fro, ag awgrym ymhob cnoc fod y polyn yn mynd adref. Wedyn tynnir y wifren, gwifren ar wifren nest bont cyn dynned a thannau telyn. O daro'r weier yn un pen fe gluda'r neges i'r pen arall, a gŵyr crefftwr wrth y nodyn a ydyw'n dyn. Y maent yn canu fel telyn—canu clod y crefftwr gwir. Y mae rhywbeth diddorol yng ngwylio'r gwifrau. Y mae'r gwifrau yn rhedeg ochr yn ochr dros dipyn ac wedi mynd yn ddigon pell y maent yn nesu at ei gilydd gan gwnsela. Ewch yno a chewch eu gweld yn cario'r gwnsel ymhellach, dyna i gyd. Y maent mor bell ag erioed ond i olwg llygaid a rhyw awgrym yn y gwifrau na ddylasem fynd wrth yr olwg bob amser.

Wedi cau rhaid cloddio, a'r crefftwr yn gosod y sail yn ddiogel. Nid ar antur y gwnai ddim, a phan godir clawdd clotsen a charreg fe welir y grefft. Mor syml yr edrych. Dim ond rhes o gerrig ar eu cantiau a *ward* o *glyts* drostynt a llanw'r clawdd â phridd ond o sylwi fe welwch fod angen llygad a llaw a medr. Ni fedr neb ond crefftwr godi clawdd teilwng o'r enw a chredaf na wn i am ddim a roi brydferthach golwg i hen fythynnod Cymru na chlawdd clotsen a charreg gylch y clos a blodau mis Mawrth yn tyfu arno a llwyn o hen wr ger drws y ty.

Gwyliwch y crefftwr. Mor ofalus y gesyd bob clotsen gan bwnio'r glotsen i'w lle a bôn y gaib. Y mae'r clawdd fel pe bai'n prifio o'r ddaear. Y mae'i wyneb yn wastad. Taflwch lygad drosto. Ni welwch odid bant na chnwc arno. Dengys fedr y crefftwr a gallwch fod yn sicr fod yn enaid yr hen gloddiwr lawer o brydferthwch ac uniondeb cyn iddo fedru codi'r clawdd.

Wrth droi adref naturiol i mi oedd synfyfyrio ar athroniaeth pethau cyffredin ac nid anniddorol yw'r awgrymiadau. Mewn

eglwys ac ardal y mae yna gymeriadau fel pyst tyn. Nid oes symud arnynt. Y maent fel y graig a gwyddoch ble i'w cael bob tro. Y mae rhyw gadernid tawel yn eu cymeriadau a chewch bobol ereill bob amser yn barod i'w ategu. Nid ydyw rhain yn sefyll yn syth eu hunain ond y maent yn *stayers* da i ambell hen gymeriad a'i ruddin o dderi. Awgrymai rhyw hen *wag* droi'r gymhariaeth gan alw'r cymeriad cryf yn *Newfoundland dog* a rhai sy'n barod i'w bleidio yn *gorgwn* yn cyfarth ond y mae'n well gennyf i ddameg y *post tyn* a'r stayers er dangos dylanwad cymeriad cryf mewn eglwys ac ardal.

Y mae yna bolion ereill—pob un yn gwneud ei waith ei hun ac er nad yw'n bost tyn y mae'n ddefnyddiol. Dyna yw aelodau eglwys a chymeriadau ardal ac fel y gwyddys y mae ambell bost wedi rhoi, ambell un wedi torri ac arall yn gorwedd ar lawr a'r awgrymiadau'n ddiddorol a gwerthfawr. Rhagor na hynyna, nid wyf yn sicr na cheir y cau ffashwn newydd. Fe geir cymeriadau fel llwyn drain, neu gropyn eithin neu biged o ddrysi. Y maent yn llanw lle ym mywyd cymdeithas ond cofier am yr offer cau. Rhaid eu trafod â bilwg a phigau ac ofer cwyno a grwgnach. Y mae'n aros y weier sy'n mynd o bolyn i bolyn, y gymdeithas sy rhwng aelod ac aelod a rhwng cymydog a chymydog, ac y mae rhyw neges yn mynd ar hyd y weier o bolyn i bolyn. Y neges hon, y cymundeb a'i gilydd sy'n gwneud neu ddamnio cymdeithas. Y mae ambell weier a neges wâg ganddi. Ambell weier a rhwd arni a pheth o'r rhwd yn aros ar y neges. Y mae'r weier arall yn loyw ac yn cario neges glir. Dyna fel y caraf i esbonio dameg y polion a'r weier. Arall yw gyda'r cloddio. Fe welwch seilio'r clawdd ar sail ddiogel. Nid dim ond cerrig a geir yn y clawdd. Y mae angen *clyts* a phridd. Y mae yna wahanol ddosbarthiadau mewn cymdeithas. Y mae yna bobl fel cerrig yn sefyll yn gadarn, ereill fel y glotsen yn fyw ac yn cylymu'r cyfan ac ereill fel y pridd, er yn methu ffurfio clawdd na chymdeithas ar eu pennau eu hunain yn anhepcor i wneuthur clawdd a chymdeithas a dyf goed a phlanhigion a chymeriadau. Y mae'r hen gloddiwr a'r gaib yn pwno'r cerrig a'r clyts a'r pridd i'w lle a dyna yw'r hen fyd yma—hen grefftwr o gloddiwr ac amgylchiadau yw'r gaib sydd ganddo'n pwno pob cymeriad i'w le ym mywyd cymdeithas, a phu'n a'i clotsen neu garreg neu bridd yr ydym fe dawelwn dan ddyrnod yr hen gaib. Ni wn i, ond y mae rhywbeth yn ddiddorol yn athroniaeth y pethau cyffredin, a phan welwn grefftwr yn cau a chloddio, bydded i ni gofio am y pen cloddiwr yn cau cymeriad oddiwrth y byd a ninnau'n bolyn neu weier, neu yn cloddio ac adeiladu cymeriad a ninnau'n garreg neu glotsen neu bridd yn ffurfio cymdeithas ac eglwys dan ddyrnodiau'i hen gaib—amgylchiadau hyn o fyd.

N. a N.

Pentref Llanwnnen.

CIPOLWG AR EI ORFFENNOL.

NID yn aml y gwelir pentref gwlad mor brydferth a glanwedd a Llanwnnen—

> " Llanwnnen llawn annwyd,
> Lle llwm o dân, lle llawn o fwyd."

fel yr arferid ei ddarlunio gynt. Pam y darlunid ef fel hyn, ni wn. Welais i erioed un arwydd o brinder moddion tân yn un o'i anedd-oedd. Tai cymharol newydd yw ei dai ; o leiaf, nid hen iawn mo honynt. Fel y mae yn awr y cofiaf ef gyntaf, gyda'r eithriad o un anedd-dy hardd a'r ysgoldy (a'i dy annedd) na cheir yn aml mo'u prydferthach. Rhyw ddwsin —(un yn rhagor)—yw nifer ei anedd-dai ; ynghyd ag un Eglwys, cysegredig i Sant Gwynnin, yn ol un awdurdod, i'r Santes Gwynnen, yn ol awdurdod arall. Nid adeilad eang mo honi, ond adeilad prydferth ddigon y tu fewn, gyda thŵr o gryn uchter i warchod y fynedfa iddi. A fu yn y pentref ryw achos crefyddol arall rywbryd ? Fe'm harweinir i ofyn gan a glywais pan oeddwn yn yr ysgol. Yn gysylltiedig a'r hen Ysgoldy, Tanllan, yr oedd olion adeilad arall, y ddau yn ffurfio'r hyn a ellir ei alw'n ongl gywir, tebig i'r lythyren L. A chofiaf imi glywed i'r adeilad hwn fod yn addoldy Wesleyaidd ryw adeg. Oes rhyw sail i hyn ? Anodd ateb ; a thebygol ydyw na ddeuir i wybod yn gywir byth mwy. O ba fath oedd pentref Llanwnnen cyn i'r tai presennol gael eu hadeiladu, ni wn ; nac ychwaith faint oedd eu nifer. Tai to gwellt, yn o debig, oeddynt i gyd. Y maent —y tai to gwellt—i gyd wedi diflannu, gyda'r eithriad o'r hen ysgoldy, os eithriad hefyd. Saif ar ystad y Neuadd a'r Castelldu, ac y mae ei hanes—hanes ei bobl—yn gymhlethedig a hanes y teuluoedd hyn. Ni ellir yn iawn adrodd hanes teuluoedd y Castell a'r Neuadd heb ddwyn pobl Llanwnnen i mewn, nac adrodd hanes pobl Llanwnnen heb ddwyn teuluoedd y Castell a'r Neuadd i mewn. Ond, o ran hynny, nid oes llawer o hanes un o honynt ar gael. Y tu ol i adeg y meddyg Jones, y mae'r cwbl ymron bod yn niwlog a gwag—parthed y Neuadd a'r Castell a Llanwnnen. Y mae yn fy meddiant gryn dipyn o hanes y boneddwr a ennwyd ac o bobl Llanwnnen ei amser ; a chant sylw yn y llithoedd nesaf.

Un o gymeriadau amlwg pentref Llanwnnen, enw'r hwn a oroesoedd ei farw oedd un o'r enw Jacob y Clochydd. Person o gryn enwogrwydd lleol ym mywyd y pentref a'r gymdogaeth a fu ef. Jacob Evans oedd ei enw priodol ; eithr wrth yr enw Jacob

y Clochydd yr adnabyddid ef yn gyffredin, am y rheswm y gweithredai fel clochydd yn Eglwys Llanwnnen. Ymddengys ei fod yn ffafryn gan y boneddwr Jones. Mentrai ddywedyd pethau wrtho na chymerai neb arall mo'r byd am eu dywedyd; ac ni fyddent fymryn gwaeth ffrindiau ar ol hynny. Y mae'r stori a ganlyn am y ddau yn engraifft dda iawn o lawer eraill a ellid eu hadrodd.

Rhoddodd Jones ganiatad i rywun i adeiladu ty ar ei dir yn y Sychbant, ymhlwyf Llanwenog, ac addawodd goed a fyddai'n eisiau, a gwellt gwenith i'w doi. Pan ddaeth yr adeilad yn barod i'r to, aeth ei berchennog i'r Neuadd i ofyn am y gwellt. Wrth fynd trwy bentref Llanwnnen, clywodd swn dyrnu yn ysgubor y Red Lion. Aeth i'r drws i weld pwy oedd yno; ac o sylwi mai Jacob oedd y dyrnwr, gofynnodd a oedd y gwellt ar werth. "Odi, odi," ebe Jacob; "os ise gwellt arnoch chi"? Adroddodd y dyn beth oedd y cytundeb rhyngddo a Jones. "Wel," meddai Jacob, "mae'n ddrwg genni ddweyd wrtho chi, ond chewch chi mo'r gwellt o gwbl os na cha i'r arian cyn ei roi e ar y cart. Wath, os gadawa i'r gwellt i fynd o ma heb dal, cha i ddime byth am dano gydag e." Aeth y dyn i'r Neuadd, ac adroddodd wrth y boneddwr yr ymddiddan a fu rhyngddo a Jacob, er difyrrwch mawr iddo; ac wrth bobun a gwrddai am rai wythnosau ar ol hyn dywedai rywbeth tebig i hyn—"Glywsoch chi beth ma'r hen Jacob yn feddwl am dana i"? Bore dydd Ffair Wnnen gyntaf ar ol hynny erchodd i'r gwas fynd i dalu Jacob am y gwellt y cyntaf peth.

Nid gyda'r bwriad o adrodd hanes Jacob, fodd bynnag, y cychwynais i ysgrifennu'r llith hon, ond i adrodd digwyddiad hynod arall yn hanes y pentref a'r gymdogaeth a amlyga inni fel y ffynnai tybiau ofergoelus yn yr hen amseroedd—hyd ymhell yn y 19eg ganrif. Yn 1844, ymddangosodd comed enfawr yn y ffurfafen. Am gryn amser cyn ei hymddangosiad, bu pryder mawr drwy'r hollwlad o'i phlegid, ac ofnid canlyniadau tybiedig ei hymddangosiad. Dywedai rhai proffwydi y tarewid y ddaear gan gynffon y seren ar ddiwrnod neilltuol, ac y llosgid y cwbl yn ulw; a rhoddid coel i'r broffwydoliaeth gan fobl yr holl wlad. Hwyrddydd Ffair Awst Llanbedr, yn ol y broffwydoliaeth, y digwyddai'r alanastra. Pan ddaeth yr adeg hir-ddisgwyliedig, yr oedd pentref Llanwnnen yn orlawn o fobl a ddaethai ynghyd i fod yn llygad-dystion o'r digwyddiad, ac i fod (fel y tybient) yn ebyrth i'r dinystr. Pam y tyrrent at ei gilydd fel hyn, y mae'n anodd dywedyd; os nad am y tybient fod rhyw gymaint o ddiogelwch mewn bod ynghanol torf o fobl. Os oedd dinystr i fod, rhoddai iddynt, yn ddiau, ryw gysur o feddwl yr aent i ddinystr gyda'i gilydd. Nid oedd y boneddwr o'r Neuadd yn hollol rydd o gael ei flino gan dybiau ofergoelus o'r fath hyn. Dywedir y teimlai gryn bryder parthed

y gomed (seren a'r gynffon y'i gelwid yn gyffredin). Dywedir, hefyd, i hen gymeriad hynod—un o'i ffafrynnau—o gymdogaeth Llanwnnen ddod o'r Neuadd yn fore iawn trannoeth i ddiwrnod Ffair Awst i ddywedyd wrth y boneddwr am beidio ag ofni, gan ei fod ef wedi gweld cynffon y seren yn syrthio i'r mor. Diau iddo gael ei wobrwyo'n dda am ei garedigrwydd.

Ydyw tybiau ofergoelus o'r fath hyn wedi darfod? Ydynt, a nac ydynt. Nid oes ond ychydig ddyddiau—tu fewn i'r flwyddyn bresennol—er pan fu'r papurau'n llawn o'r broffwydoliaeth am ddinystr tref Weymouth. Gwisgodd rhywun fantell proffwyd, a mentrodd ddywedyd y dinistrid y dref ar awr neilltuol a dydd neilltuol gan don anferth. Rhoddwyd coel i'r broffwydoliaeth gan filoedd na ellir dywedyd eu nifer, a bu i filoedd o bob rhan o'r wlad dyrru i'r dref erbyn yr adeg benodedig. Ryw hanner credu a wnaent, onite ni ruthrent fel hyn i wyneb y perigl.

Nid oes neb a wir gred bethau fel hyn bellach. Ni feddylia neb, bellach, fod un perigl mewn na chomed na diffyg ar yr haul (neu'r lleuad) nac un digwyddiad arall o gyffelyb natur. Ac y mae adeg y bwcîod a'r canhwyllau cyrff a'r toilîod a'r dyn (neu'r ddynes) hysbys ymron diflannu. Dywedaf ymron diflannu, oblegid deallaf nad ydynt, eto, wedi llwyr ddiflannu o Geredigion. Y mae'n hen bryd iddynt ddiflannu—yn llwyr.

D.E.

Cawdel.

(Papur yn trin a chwestiynnau rhy *ddelicate* i'w ddarllain o flaen y Gymdeithas).

CAWDEL, ie; hen air reit dda i gyflêu a feddyliaf i drwch y blewyn. Y mae llawer gair na wn i mo'i ystyr ac wedi'i wybod ni thal fawr ond y mae *use* gwlad yn ddigon er gwybod ystyr cawdel. Ni wyddom ni nemor o hanes yr hen eiriau yma ac ni phryderwn chwaith ond y mae llawer o synwyr cyffredin ynghlô ynddynt. Geiriau dwad ydynt ac y mae geiriau dwad fel dynion dwad yn eiriau a mynd arnynt, chwedl Watcyn Wyn. Dyna'r fath air yw *cawdel*. Dywed y rhai a ŵyr mai alltud bach neu ddyn dwad yw cawdel, wedi dod dros y don. Hwyrach iddo ddod gyda'r Norddman slawer dydd, pwy ŵyr, a phan droes y Norddman yn Gymro iddo yntau dario er ei atgofio o'i dras. Rhyw grwt o Normandi neu Bicardi ydyw wedi gwisgo

gyda threigl amser rhyw gymaint o wisg Gymreig, tebig ag y gwna ambell Ddic Shon Dafydd ar wyl Dewi Sant, neu wŷr y wynwyn yn ein dyddiau ni. Y mae bellach i bob ystyr ymarferol yn Gymro o waed coch cyfan ac yn gwneud ei waith a beth ragor y sydd eisiau. Pe gofynnech iddo adrodd ei hanes dywedai wrthych mai *cawl twym* ydoedd yn Ffrainc 'slawer dydd ac yr wyf innau am bwysleisio'r ystyr—**Cawl twym**—rhag i mi gael fy hun mewn cawl twym. Nid yw cawl twym yn golygu dim ond *cabetshen* yn yr Eidaleg (*caulis*) mewn gwisg Gymraeg ac yn aros gyda ni yn y *Cauliflower* a'r *gabetshen* hithau hwyrach (er na wn i) yn ddim amgen na'r hen air *cabotsh* y gwyddem ei ystyr yn dda yn blant slawer dydd. Nid oes blentyn o Gymro na wyr beth yw *cabotsh*. Ond dyna ddigon o ragymadroddi.

O gofio'r ystyr—*cawl twym*, fe welwch fod perigl i minnau ffaglo dan y ffwrn ac iddi ferwi trosti a'm llosgi i wrth ymhel a'r cawdel ond y mae'n werth y cynnig.

Yn ystod y blynyddau diweddaf hyn yr wyf wedi dod yn gredwr cryf mewn trefniant hyd yn oed ar draul caethiwo ar annibyniaeth enwad neu eglwys. Gwn fod perigl gorthrymu wrth geisio gwneuthur rhywbeth, ond nid cymaint perigl a gadael i ddifaterwch ac oerfelgarwch rewi ysbryd menter a brwdfrydedd. Yr wyf yn gofyn yn ddifrifol i mi fy hun a ydyw'r gymdeithas yn werth ei chadw'n fyw. Yr wyf wedi pendroni llawer ar hyn o feddwl am gyrddau'r Gymdeithas ym Mrondeifi ac nid anniddorol fydd galw sylw at a fedrai'r Gymdeithas wneuthur wrth awgrymu nad yw wedi gwneuthur nemor ddim yn fy oes i. Hwyrach fod ei hoes aur hithau fel oes aur popeth o ran hynny o'i hol.

Yn ystod y blynyddau diweddaf hyn y mae yna lu o bulpudau'n wag ond ni ofala'r gymdeithas. Cymerer engraifft er nodi a feddyliaf—Cymerer Cefncoed dyweder, neu Gapel y Groes a Chribyn. Y mae pulpud Cefncoed yn wag ers blynyddoedd a hyd y gwn i heb fod yr un cais wedi ei wneuthur i'w lanw. Y mae yna bulpudau ereill yn wag ar hyn o bryd a chredaf y dylasai'r gymdeithas ofyn yn garedig i'r cynulleidfaoedd hyn am y rheswm paham na chymerant yr un cam i geisio eu llanw. Ofer annog yr ieuainc i'r weinidogaeth, ac ofer apelio am Dair Mil onid oes eisiau gweinidogion ar yr eglwysi. Nid enwais i mo Cefncoed ond fel engraifft. Y mae ganddi resymau digonol dros beidio gwneud hwyrach, ond ni fyddai'r rhesymau'n fymryn llai o'u gosod ger bron y Gymdeithas. Dychmygaf i weld ysbrydion y teidiau yn dod gydag awel yr hwyr gan weiddi "*Annibyniaeth*!" ond y mae perigl i ryddid droi'n benrhyddid ac i Annibyniaeth fynd mor bell nes troi'n gaethiwed hunanol ac afiach. Y mae'n agored i bob eglwys bentyrru ei

llid cyfiawn ar fy mhen am fy mod yn awgrymu halogi ei hannibyniaeth, ond cofier, cawdel yw *cawl twym.*

"Nid da rhy o ddim," meddai'r hen ddihareb ac nid da rhy neu ormod o annibyniaeth ychwaith.

Y mae'r hen weinidogion, yr hen frigade (ac y mae'r olaf ohonynt wedi encilio) wedi bod yn Gristionogion eu hunain os ydyw byw ar drugaredd yn Gristionogaeth, gan adael i aelodau cyfoethog i fod yn Gristionogol *on the cheap.* Gwn am eglwysi lle ni cheir cyflog byw ac nid oedd angen gofidio yn oes yr hen frigade ond "Bugeiliaid newydd sydd ar yr hen fynyddoedd hyn." Y mae nifer o'n pulpudau weithian yn wag a gwag fyddant yn hir onid yw'r aelodau yn barod i ddeffro. Gwn fod y Sustentation Fund wedi dysgu llawer cynulleidfa i hepian a chysgu a buasai'n agoriad llygad i ambell eglwys i astudio Adroddiadau eglwysi ereill. Beth sy'n rhwystr i'r gwahanol eglwysi gymharu nodiadau a chofier buasai'n galondid i lawer eglwys wan wybod a wna ereill. Heddiw nid yw un eglwys yn fwy o galondid i eglwys arall na phe bai yn Nhimbuctŵ. Carwn i weld pwyllgor o bob ysgrifennydd a thrysorydd eglwysi'r gymdeithas yn cwrdd unwaith y flwyddyn cyn y Cwrdd Blynyddol er astudio Adroddiadau'r eglwysi a rhoi adroddiad i'r Gymdeithas ac onid yw pob eglwys yn gwneud eu rhan credaf y dylasai'r Gymdeithas fynnu gwybod y rheswm paham ?

Rhagor na hynyna, y mae dwy neu ragor o eglwysi ymhob gweinidogaeth yn Sir Aberteifi ac ni wyddant yn iawn y ffordd i symud i gael gweinidog pan fo'i eisiau. Y mae *cam wrong* yn ddigon i andwyo llwyddiant yr eglwysi a chredaf i mai'r gymdeithas a ddylasai gymryd y cam cyntaf er gofyn i rywrai y sy y tu draw i Glawdd Offa ddychwelyd er cadw'r tân ynghynn ar yr hen aelwydydd neu i annog yr eglwysi i fentro ar weinidog ieuanc oherwydd bai bach yw bod yn ifanc a bai sydd yn treulio ymaith yn fuan iawn. Oni chaiff gweinidog ifanc gyfle, sut y disgwylir iddo ennill profiad ? Y mae'n rhaid *risko* llawer a chydag amynedd a chariad fe dâl y ffordd.

Medrem nodi llawer o bethau y carwn i'r gymdeithas wneuthur dros yr eglwysi, ond rhaid ymatal. Y mae gennym nifer o fechgyn ieuainc addawol yn cynnig eu hunain i'r weinidogaeth a chredaf y dylasai'r gymdeithas ymegnio gan fanteisio ar ei chyfle. Y mae'r bechgyn hyn wedi cymryd y cam cyntaf a dylasai fod gennym bwyllgor, nid i ofalu a *spyo* arnynt, ond pwyllgor y

medrant droi ato am air o galondid a chyfarwyddyd. Medrwn ddweyd llawer ond rhaid ymatal. Hwyrach mai cawdel yw'r cyfan y sydd gennyf ond fe'i dywedaf o galon onest.

* * *

Flynyddoedd lawer yn ol bellach fe benderfynodd y Gymdeithas wylio rhag i ryw anffawd ddigwydd oherwydd peidio apwyntio Ymddiriedolwyr. Yng Nghyfarfodydd Blynyddol y Cilian fe awgrymwyd i'r Llywydd am y flwyddyn i edrych i mewn i achos Cwmwrdu. Nid wyf am sôn dim ar hyn o bryd am apwyntio ymddiriedolwyr Cwmwrdu a chredaf fod pobl yn caru'r achos wedi eu hapwyntio bellach. Digon yw fod Ymddiriedolwyr ar Gwmwrdu. Fy amcan yw eu deffro i fod yn ymddiriedolwyr heb ond mewn enw yn unig. Sefydlwyd yr achos yma gan y diweddar Barch. William Rees gynt o Lwynrhydowen a thad y Parch. William Rees o Rydygwin. Gwnaeth yr olaf ewyllys. Yr oedd ganddo fferm fechan o'r enw *Llainffynnon* ac yn ei ewyllys fe'i gadawodd i Gwmwrdu a Rhydygwin. Nid yw'r ewyllys yn fy meddiant ond deallaf fod rhywbeth yn amwys ynddi. Nid wyf yn gyfreithiwr na mab i gyfreithiwr ond deallaf nad yw'r *tenant* wedi clywed gair oddiwrth yr ymddiriedolwyr ac eleni y mae'n ymadael ac ar ei gyfrifoldeb ei hun y mae wedi *ardrethu'r fferm* i denant newydd ac nid yw'r ymddiriedolwyr wedi yngan gair. Nid ydynt wedi trafferthu cwrdd a'i gilydd. Y mae ganddynt hwy eu rhesymau eu hunain dros yr hyn a alwaf yn *masterly inactivity*, a chredaf y dylasai'r Gymdeithas ofyn i'r ymddiriedolwyr am esboniad, neu o leiaf dylasai eglwys Rhydygwin fynnu gwybod rhywbeth gan yr ymddiriedolwyr ac amryw ohonynt yn aelodau yno. Nid dinoethi er mwyn barnu mo fy amcan ond wrth astudio hanes yr enwad yr wyf wedi gweld cymaint o ddifaterwch yn troi'n golled fel yr ofnaf o weld y blynyddoedd yn mynd a neb yn ymwybodol. Hwyrach fy mod yn procio nyth y picwn ond credaf fod dyledswydd yn galw arnaf i alw sylw'r Gymdeithas ac Eglwysi'r Enwad at y mater.

Gobeithio y rhoir esboniad yn y Cyrddau Chwarter er clirio ymaith bob amheuaeth, ond ni chredaf y'n boddlonir oni chawn sicrwydd fod y cyfan yn ei le. Y mae'n bryd bellach i gael terfyn ar y mater ac os digwydd i'r papur hwn symbylu'r ymddiriedolwyr i wneud eu gwaith ni fydd wedi ei ysgrifennu'n ofer. Y mae galw am siarad plaen. Ni feiaf neb. Ni wn mo'r hanes na'r helynt ond gwn hyn—Oni symudir ar fyr—fe geir yma *gawdel*.

Perlau Moliant.

ADOLYGIAD

Gan Y Parch. J. ISLAN JONES, M.A.

WEDI hir ddisgwyl ohonom am dano, cawsom o'r diwedd ail-argraffiad o'r Perlau Moliant, er llawenydd cyffredinol cynulleidfaoedd Cymru, mi gredaf.

Ceir llawer sydd yn newydd yn ei gynnwys, ond mae digon o'r hen yn aros i'w nodi fel gwir olynydd i'r argraffiad cyntaf.

O dan rwymyn addewid i Olygydd Yr Ymofynnydd, dyma fi yn traethu fy marn ar y llyfr. Gwn faint y cyfrifoldeb sydd ynglyn a'r ddyledswydd, a cheisiaf fod yn hollol onest a theg.

O ran ei ddiwyg alianol, y mae'r llyfr yn ddestlus iawn ; a gwedd gref a pharhaol ar y rhwymiad lledr, o leiaf. Oddifewn, y mae'r argraffwaith yn lân ac yn ddifrychni,—un gwall yn unig a ganfum i, sef "i" yn eisiau yn y gair "ni" yn emyn 351. Carwn i, fodd bynnag, lythyren ychydig yn drymach. Y mae'r pris,—pump a chwech am yr argraffiad mewn lledr, yn isel iawn ; ond tebygol yw y bydd galw am rwymiad rhatach eto mewn llian, at wasanaeth cyffredinol yr eglwysi.

Ansawdd yr Emynau.

Dymunaf, ar unwaith, dalu teyrnged ddiffuant o glod i'r pwyllgor a ddewisodd yr Emynau. I'm tyb i, y mae'r casgliad hwn yn rhagori ar yr holl rai a'i blaenorodd. Y mae'r chwaeth yn uchel, y syniadau'n goeth ac yn ddiwinyddol iach o'r safle Undodaidd ; ac ymhellach y mae gwlith ac eneiniad awenyddol ar lawer iawn o'r emynau. O fanol sylwi, fodd bynnag, gwelais rai pethau nad ydynt yn fy moddio yn hollol. Aneglur iawn yw meddwl y pennill cyntaf yn emyn 251 ; ac nid wyf yn hoffi un o linellau emyn 246 "Tân a lysg y ddaear ddu." Heu syniad yw hwn a frawychodd lawer o blant a phobl ofnus y dyddiau fu : nid oes un sail iddo hyd y gwn i, ac y mae'n bryd iddo farw.

Boddhad mawr i mi yw gweld gwaith emynwyr o bob enwad bron yn y casgliad, a thlotach o lawer fyddai'r llyfr pes cyfyngasid i emynwyr Undodaidd yn unig.

Diffygion.

Rhag i'r pwyllgor ymfalchio gormod yn fy edmygedd o'u gwaith, rhaid i mi nodi ychydig o'i ddiffygion hefyd. Yn ffodus, diffygion cymharol ddibwys ydynt. Ni welais i yn y llyfr gymaint ag un emyn yn cyfeirio'n arbennig at enedigaeth Iesu Grist: oni fyddai ychydig o emynau Nadolig yn dderbyniol a defnyddiol iawn? Ni cheir yma yr un emyn diwedd blwyddyn, nac un emyn Sulgwyn; ond cawn rhyw un llun o emyn "cymundeb." Cynhelir gwasanaeth Cymun unwaith y mis yn y rhan fwyaf o'n capeli, ac un emyn yn unig a geir ar gyfer hyn! Y mae yma dri emyn "dechreu blwyddyn," un emyn y Pasg neu'r Groglith, ac un emyn "ar fedydd plentyn." Unwaith yn y flwyddyn y daw diwedd Cynhaeaf, ond ceir yma dros ugain o emynau ar gyfer yr achlysur, a digonedd o emynau angladdol hefyd. Onid yw hi yn bryd cydnabod priodas fel gwasanaeth cysegredig? Nid oes yn y llyfr un emyn ar gyfer hyn.

Nid yw'r "Mynegai i'r Testunau" ychwaith mor wasanaethgar ag y gallai fod. Yn ofer yr edrychir iddi am y penawdau hyn: "Y cynhaeaf," "Dechreu Blwyddyn," "Y Pasg," "Bedydd Plentyn," "Marwolaeth," "Angladd," a.y.b. Anghyfleus yw hyn i'r pregethwr.

Yr Orgraff.

Gwnaed ymdrech ganmoladwy a gweddol lwyddiannus ar y cyfan i ddwyn yr orgraff i safon yr awdurdodau uchaf ar yr iaith. Hyn sydd yn cyfrif am lawer o'r newid ar frawddegau a dyn sylw'r craffus. Ehedodd "aden" i rywle, a daeth "adain" i'w lle: bum yn chwilio dro am "adanedd" hefyd, ond "adenydd" gefais i. Nid oes "gwyneb" yn gwenu yn un lle, ond "wyneb" a wena arnom ar lawer tudalen. Ciliodd y "gwlaw" yn llwyr, ond y mae "glaw" eto i ddytrhau'r "meysydd." Wedi ffoi o'r "gwlaw," naturiol fyddai gweld "cawod" yn mynd yr un ffordd, ond deil hon ei thir ymron i'r diwedd: i sicrhau fod popeth yn iawn fodd bynnag ceir "cawad" felys cyn terfynu (472). Diflannodd y "mynyddau" a'r "llechweddau" ond, trwy fendith, erys "mynyddoedd" a "llechweddi" ar yr hen ddaear yma o hyd. Nid oes "flynyddau" mwyach, ond dirwyn troell amser y blynyddoedd fel cynt. Ni thraethwyd mo'r hanner eto, ond amser a ball imi helaethu. Ar ol sychu'r syndod o'm llygaid, carwn ofyn yn wylaidd paham y defnyddir y gair "llewyrch" drosodd a throsodd drachefn? Pa sawl gwaith, tybed, y taranodd yr Athro o Fangor, ar lwytau yr Eisteddfod, mai "llewych" yw'r ffurf iawn? Pwy ddyn ac ynddo ddim o hunan barch sydd yn "fodlon" heddyw i ddefnyddio ffurf ddirywiedig fel "boddlon"? Ac onid

gwell yw "santaidd" na "sanctaidd"? A oes angen am ddefnyddio dwy ffurf ar yr un gair mewn un llyfr? e.e. "prawf" a "praw", tebyg" a "tebig," "atgofio" ac "adgofio." "dyledswydd" a "dyletswydd".

Gramadeg.

Gellir esbonio a chyfiawnhau llawer o'r cyfnewidiau fel ymdrechion teg i gywiro ffurf geiriau, a chystrawen brawddegau. Yn ol yr awdurdodau, nid cyfreithlon yw defnyddio "y" ar ol "pan" ac "os"; am hynny newidir "Pan y ceisiwn y ffordd dda," i "Pan argeisiwn y ffordd dda"; eto diangodd y gwall hwn yn y llinell "Ond pan y gwelaf draw." Byddai "Ond pan ganfyddwyf draw" yn well. Felly hefyd yn lle "Pan y byddi di gerllaw" ceir "Byth, pan fyddi Di gerllaw." Mwy cywir eto fyddai'r Modd dibynnol—"Fyth, pan fyddych Di gerllaw."

Dywed y gramadegwyr na ddylid defnyddio y fannod (definite article) o flaen enwau afonydd a phersonau; ac am y rheswm hwn yn debygol, ni cheir yr ymadroddion "Yr Iorddonen", yr Iesu", yn y gyfrol o gwbl,—ond "*llif* Iorddonen" ac "*ein* Iesu." Y gwir yw, ar waethaf gramadegwyr a "Gloywi'r Gymraeg," fod yr ymadroddion hyn mor gynefin a chysegredig i Gymry crefyddol, fel mai ofer ac annoeth fyddai ceisio eu newid. Cydnabyddir hyn gan bwyllgor y cyfieithiad newydd o'r Beibl, canys yn "Efengyl Marc," a gyhoeddwyd ychydig o flynyddoedd yn ol, ceir "Yr Iesu" o leiaf ddeugain o weithiau, ac "yr Iorddonen" ddwywaith.

Priod-ddulliau (Idioms).

Enaid iaith yw ei phriod-ddulliau, ac oherwydd hynny teilyngant sylw neilltuol. Un o briod-ddulliau prydferth yr iaith Gymraeg yw yr hyn a elwir (o ddiffyg enw gwell) yn "ymadrodd annibynnol" (*absolute construction*). Ceir amryw engreifftiau ohono yn y Testament Newydd. Ail ddarganfuwyd hwn, rai blynyddoedd yn ol, gan fechgyn yr "ysgol newydd," ac oddiar hynny dioddefodd lawer o gamdriniaeth. Yn wir, rhaid ydyw ei drin yn ofalus rhag i'r defnydd ohono wneud ystyr y frawddeg yn amwys....*Rhan* o ymadrodd ydyw, a'i le priodol yw ar ddechreu brawddeg, neu o leiaf, o flaen, ac nid ar ol y brif ferf yn y frawddeg. Wele engreifftiau: "*Ac efe eto yn llefaru*, daeth un o dy llywodraethwr y synagog . . ." "A bu, *a hwy yn ymadaw oddiwrtho ef*, ddywedyd o Betr wrth yr Iesu . . ." "*Ac a phawb yn rhyfeddu am yr holl bethau a wnaethai yr Iesu*, efe a ddywedodd wrth ei ddisgyblion . . ." "A digwyddodd ar un o'r dyddiau hynny, *ac efe yn dysgu y bobl yn y deml ac yn pregethu yr Efengyl*, ddyfod arno yr arch-offeiriad . . ."

Sylwn fel y gosodir yr ymadrodd annibynnol o flaen y brif ferf yn y frawddeg a honno, (sef y brif ferf) yn y modd mynegol (indicative) ac yn yr amser gorffennol. Hefyd, nid yr un yw sylfaen neu destun (subject) yr ymadrodd annibynnol ac eiddo'r brif frawddeg. O wyrdroi'r frawddeg, a rhoddi'r ymadrodd annibynnol ar ei diwedd, bydd perigl i ni ddarllen yr "a" neu "ac" sydd yn nodweddiadol o'r ieithwedd hon, fel cysylltair, gan newid yr ystyr yn hollol. Hefyd, gwan a llipa yw brawddeg a ddiweddir gyda'r ymadrodd annibynnol, yn enwedig felly os bydd y brif ferf yn y modd dibynnol (subjunctive).

Y mae'n ddrwg gennyf fod yn rhaid i mi ymhelaethu cymaint, ond y mae'r peth yn bwysig o safbwynt ieithyddol; oherwydd credaf mai gwallus (neu anffodus, o leiaf) yw pob ymgais wnaed yn y llyfr newydd i ddefnyddio'r priod-ddull hwn. Wele'r engreifftiau:—diwedda emyn 8 fel hyn "A mi'n y byd yn byw." Credaf yr amcanai'r awdur ddweyd "Tra fyddwyf fyw yn y byd." Ond ystyr naturiol y llinell fel y saif yw "Os byddaf fyw yn y byd." Gwel pawb wanned yw'r holl bennill—y ferf yn y llinell gyntaf a'r ymadrodd annibynnol yn yr olaf. Er mor ystrydebol ydyw, gwell fyddai:—"Tra bwyf ar dir y byw" (hen *idiom* Cymraeg).

Eto, y mae dwy linell olaf, pennill cyntaf emyn 165 fel hyn "Rhodio wnelom ger dy fron ac ynom chwyth" "Tra ynom chwyth" ysgrifennodd Ivor—ymadrodd hollol farbaraidd heb un ferf ynddo (wrth gwrs cymerid y ferf "byddo" yn ganiataol). Beth am y cyfnewidiad ynte? "Ac ynom chwyth." Y peth mwyaf naturiol yw darllen "ac" fel cysylltair, a dyma ystyr y frawddeg wedyn: "*May we walk before Thee and blow* (*Thou*) *in us.*" Dyna ddigon i ddangos mor ofalus y dylem ni fod gyda'r math yma ar ymadrodd.

Newid Afreidiol.

Cyn darllen y llyfr, cefais awgrym ei fod yn bradychu gormod o ysfa i newid hen emynau: yr oedd peth gwirionedd ynddi hefyd. Wele engreifftiau:—Yn emyn Dewi Hefin (219) yn lle "Llawened nef a llawr" ceir "A llawen nef a llawr"—ymadrodd heb ferf eto. Yn ol Bodfan y mae llawenu yn air derbyniol, beth yw'r rheswm am y newid ynte? Ymhellach, newidir y llinell "Mae'n estyn ei deyrnwialen" i "Estynna'i deyrnwialen". Gwell ffurf yw "estyn" nac "estynna" a gwell gennyf fi yw'r gwreiddiol. Gwnai "Fe estyn ei deyrnwialen" y tro hefyd. Ar lafar gwlad gair tair sillaf yw teyrnwialen.

O'r braidd yr adnabum i emyn 41 gan gymaint y newid fu arno.

"Mor ddedwydd yw y rhai drwy ffydd
Sy'n mynd o blith y byw."

meddai Glan Geirionydd. Hyfryd iawn! "mynd o blith y byw" *idiom* Gymraeg hollol, ie gresyn yw newid dim ar hon.

"Eu henwau'n perarogli sydd
A'u hun,—mor beraidd yw!"

Os bu trysor llenyddol erioed dyma fe. Trais ar beth cysegredig yw newid gem fel hyn!

Addefaf na chydfydd syniad yr ail bennill "huno yn llwch y bedd" a'm cred i yn anfarwoldeb yr enaid. Y mae huno yn yr angau yn *idiom* prydferth am farw, ond yn y cyfwng â'r enaid at Dduw, nid i lwch y bedd: felly yr oedd angen newid peth yma.

Buddiol oedd gwella acen gloff Reuben "Gorffwys a gaf mewn porfa las" ond byddai newid un lythyren yn ddigon,—"Gorffwyso gaf mewn porfa las."

Y Cyfieithiadau.

Ceir llawer o gyfieithiadau yn y casgliad, a'r rhan fwyaf o honynt yn llithrig ac yn felys, heb ormod o arogl geiriadur na gwedd y gymalwst arnynt. Nid ydynt i gyd yn ddifai: credaf y medrid gwneud yn well ar emyn 3 gydag ychwaneg o ofal a chaboli. Tipyn yn drwsgl yw'r cwpled yma:

"Fel carwn ni a geri, Dad
A gwneuthur a wnait Ti."

Yn y cysylltiad yma gofyn "fel" "y" ar ei ol, a'r ferf yn y modd dibynnol "Fel y carwn ni a geri, Dad" fyddai'n gywir.

Rhy drwm ac afrosgo ei gerddediad yw cyfieithiad R. Morris Lewis (55). I'a arddeliad a ellir ddisgwyl ar ganu "Dy fraich ei hunan, digon hi" ac "Amser, fel ffrwd lifeiriol, glau?"

Oni fyddo cyfieithiad yn darllen yn llithrig a melys heb drais ar feddwl na gramadeg, ei le addas yw'r llwchgist.

Dyma fi wedi ysgrifennu llawer gormod, ac wrth hynny efallai wedi colli'r ychydig gymeriad a feddwn. Dywedodd y Golygydd wrthyf fod rhyddid i mi i draethu a fynnwn am y llyfr (teimlai ef yn sicr na fedrai neb weld bai ar y gwaith). *Temtiwyd fi i sylwi ar ychydig feiau,—dibwys mewn cymhariaeth ydynt i gyd.

Dymunaf ddiolch yn wresog i'r rhai fu'n ffyddlon a llafurus gyda'r gwaith llafur cariad oedd y cyfan. Y mae Undodiaid Cymru o dan rwymau mawr iddynt a bydd y llyfr newydd yn adlewyrchu clod arnynt am lawer o flynyddoedd.

Awst 29*ain*, 1928.

(*Rhag i rywun gymryd yr Adolygiad yn rhy *sarius* a dweyd gyda Steele, "*I know of no manner of speaking so offensive as that of giving praise and closing it with an exception*," yr wyf am eu rhybuddio. Ceisiais i am Adolygiad gonest, nid am y rheswm chwareus a gynnig Islan y credwn nad oedd gamsyniad ynddo oherwydd nid wyf i yn anffaeledig ac ni chredaf fod neb arall a roes lafur cariad yn y llyfr yn honni dim o'r fath beth, ond rhag ofn na cheid adolygiad arno yn Yr Ymofynnydd. Ni cheisiaf i ateb yr Adolygydd ond caiff arall os ewyllysia. Digon gennyf yw galw sylw Islan at eiriau Mr. R. Williams Parry, M.A. yn ei ragymadrodd i'w lyfr lle dywed, "Am anghysonderau Cymraeg y llyfr, i'm mympwy fy hun yr wyf i ddiolch. Mewn anwybodaeth yr ysgrifenaswn (rai camsyniadau), ond o fwriad yr ysgrifennais ereill."—Gol.)

Glanbran.

BUM ar grwydr ac y mae ysfa crwydro yn fy ngwaed a llith y tramp y sydd gennyf. Rywle yn nyffryn Tawe yr oeddwn ar brynhawn mor glir a phrynhawn o hâf ond fod y rhew yn hogi'r awel. Aem ar y bus i Glydach ac y mae Clydach ar Dawe yn ddiddorol. Yno y ceir gweithfeydd Mond ac yn eu gwylio megis o bell y mae certhin hardd o'r Doctor Ludwig Mond. Yr oem yno yn ystod newid y shift ond odid a phrydferth a diddorol oedd gweld y cannoedd yn mynd a dod megis gwenyn mewn cwch ac nid oeddent ddim amgen. Nid dyna paham serch hynny yr oedd Clydach yn ddiddorol i mi. Cofio yr oeddwn am achos bychan yno. Dywedir fod cangen o Eglwys y Bedyddwyr wedi'i sefydlu yng Nghlydach. "Trodd y gangen yng Nghlydach yn amser y Mudiad Arminaidd oddiwrth y Bedyddwyr neillduol. Mae'n debig mai dylanwad Moses Williams Llandyfâu fu'r achos o hyn. * * Pa bryd y dechreuwyd yng Nghlydach? * * Cynhaliwyd Cwrdd Misol yno yn 1787. * * Dychwelodd Cook yn ol i'w fro enedigol (wedi bod yng ngholeg Islington) a bu'n amaethu ym Mhantyruchedydd a chadw ysgol yn Ynystawe yn gystal a phregethu'r gair ond gan gymaint ei oruchwylion blinodd ar y

wlad ac aeth i'r America. Parhaodd yr achos Arminaidd yng Nghlydach hyd 1851 pan ail-unwyd hwy a'r Bedyddwyr Neillduol yn yr Eglwys Newydd ym Methania."*

Carwn i wybod rhagor am y cefnu a'r dod yn ol, am Foses Williams a'r dyrnaid bach hwyrach, a meddyliwn am rywrai wedi blino ar y frwydr. Y mae rhyw daro ergyd felly yn ddiddorol i mi, yn llawer mwy felly na hyd yn oed gerflun Dr. Ludwig Mond er cystal yw. Cerddasom drwy'r Glais yng nghyfeiriad Birchgrove a hyfryd oedd galw i gof rhai o genhadon Duw yn y cylch. Wrth gerdded i fyny'r bryn at Lanbrân, a ninnau ymhlwyf Llansamlet, meddyliwn a oedd yno afon fechan o'r enw Brân neu oedd rhaid mynd yn ol at Fendigeidorau y Mabinogi cyn cael ystyr iddo. Ni wn i ond gwn fod rhywbeth yn urddasol yn yr hen blas. Yr oedd yn fwy urddasol hwyrach o gofio mai *Cardis* a drigai yno. Aem i ymweled a Mrs. Jones a oedd ys dywedai Dr. Clifford slawer dydd yn 94 years *young* a braidd na ddywedwn ei bod mor ifanc heddiw a phan y'i gwelais flynyddoedd yn ol, a minnau'n llanc yn crynhoi calennig. Yr oedd y côf a'r clyw yn dal a medrai fy adnabod oddiwrth fy nheulu. Nid oedd ball ar ei hatgofion. Ae a mi yn ol am ryw drigain a deg o flynyddoedd man lleiaf. Cofiai yn dda am '68 ac aeth dros stori y troi allan a rhywrai yn gorfod mynd o'r Caerau a hithau yn ei gael. Yr oeddwn yn gwybod y stori. Yr oeddwn wedi ei chlywed gan arall—gan ferch y Caerau a'r dagrau ar ei grudd. Yr oeddwn yn teimlo y medrwn i bontio'r gagendor a llamu megis i Gaerau a gweld rhyw deulu lluosog ond odid yn gorfod mynd o'r hen gartref, y cyfan ond odid yn cael ei werthu dan draed, a hwythau heb le i roi eu pennau i lawr. Cofiai am dani ei hun a'i theulu yn gorfod ymadael a Brynllwyd ac eraill yn mynd yno a rywsut yr oedd fy nheulu i ynghlwm a phob stori ac a phob symud o ran hynny. Wedi gadael byd gwleidyddiaeth ac erlid slawer dydd troes at yr YMOFYNNYDD ac yr oedd yn gysur deall fod un o leiaf yn ei ddarllain o'r dechreu ond odid ac yn parhau yn ffyddlon iddo gan ei garu ar hyd y blynyddoedd. Gwyddai'i gynnwys o glawr i glawr. Cofiai am hen bregethwyr ac offeiriaid a chefais ei hatgofion am lawer oedfa fyw. Danghosai imi y *Christian Life* ac yr oedd hanes yr hen Sir ar flaenau'i bysedd. Yr oedd fel pe bai yn byw a bod yno. Hwyrach nad yw'n ddiddorol i'r darllenwyr ond yr oedd i mi.

Yr oeddwn yn ceisio darlunio yr oes o'r blaen oddiwrthi, cymeriad cadarn di-ildio, y meddwl effro, y côf gafaelus a *chwiltwr* yr oes honno. Yr oedd fel darn o slawer dydd. Fe'i cofiwn yn y Llech-

* W. R. Watkin, M.A., Llanelli—Trafodion 1916—1919.

wedd wedi cefnu ar Frynllwyd a Chaerau, ym Mank Hall a'r Manor yng Ngalltyblaca a diddorol oedd ymweld a hi ymhell o fro'i genedigaeth er galw yr hen Sir a slawer dydd yn ol. I'r neb y sydd eisiau *tonic* arno rhag yr amseroedd blin, i'r neb a garo sôn am y dyddiau gynt, i'r neb a garo hen gedyrn yr enwad yn bregethwyr a lleygwyr aed at rywun y sy'n dal yn ieuanc o ysbryd ar waethaf treigl y blynyddoedd a chaiff yng Nglanbrân rywun ar waethaf y 94 y sy'n dal yn sionc a heini a'i meddwl yn ddim amgen na *scrapbook* o'r hen amser gynt, hen gronicl neu femrwn ac amser wedi trysori i ni hanes y digwyddiadau a fu.

Urdd y Benywod.

Llythyr Llywydd yr Urdd.

Annwyl Aelodau'r Urdd,—

Y mae'r gwyliau drosodd a ninnau'n wynebu tymor newydd o waith a bywiogrwydd yn ein Canghennau a'n Heglwysi gyda rhaglen fawr o Fazars, Darlithiau a Chyfarfodydd yn gofyn gofal a gwaith mawr. Fel yr â'r amser yn ei flaen fe sylweddolwn mwyfwy a olyga'r Urdd inni, yn llawenydd brawdoliaeth a gwaith cyffredin, ysbrydoliaeth aelodau, yn arbennig ei chydnabyddiaeth o bethau dwfn yr ysbryd fel sylfaen popeth arall a ffynhonnell pob nerth. Ym merw gwaith y gaeaf na fydded i ni fod yn rhy brysur nes anghofio "y rhan dda."

Gan ddymuno pob llwydd i chwi,

Medi, 1928. M. Edith Martineau.

Edrych ymlaen.

Y mae gwaith y Pwyllgor Canol wedi'i rannu'n adrannau ac enfyn pob adran neges i'r Canghennau er dywedyd mewn ychydig eiriau a amcanant wneuthur yn ystod y flwyddyn.

Brawdoliaeth.

Dywed yr Ysgrifennydd,—

"Darllenwch Adroddiad y Frawdoliaeth yng nghyfarfod nesaf o'ch Cangen os gwelwch yn dda er gweld a fedr yr aelodau awgrymu

rhai benywod neu ferched hŷn ymhlith y gynulleidfa a garai ymuno fel aelod o'r Gangen neu gael llythyr cyflwyno ar ymadael ac anfonwch eu henwau i Brif Swyddfa'r Frawdoliaeth."

Dolennau Cyfeillgar.

Yn yr hydref bwriadwn grynhoi newyddion am ddolennau y sydd yn barod, gan ofyn am enwau newydd y sydd bob amser a galw amdanynt, yn arbennig am Ddolennau gydag aelodau'r Undeb Ieuanc yn yr Amerig, a'u hoedran o 13 i 17.

Cyhoeddi.

Neges adran y **Cyhoeddi** ydyw annog yr aelodau i ymgydnabyddu a holl gyhoeddiadau'r Urdd gan wneuthur eu hunain yn gyfrifol am chwilio a defnyddio cyfleuon newydd o wneud y negesau prydferth yma yn fwy hysbys.

Rhyngwladwriaethol.

Y mae'r pwyllgor yn cymryd diddordeb yng ngwaith yr Undeb Rhyngwladwriaethol mewn cyfangorff, a chais gadw cysylltiad ag unrhyw ddosbarth o fenywod yn perthyn i'r Mudiad Crefyddol Rhyddfrydig lle bynnag y bont. Gobeithio y ceir diddordeb cynhyddol yng ngwaith yr adran ymhlith benywod yr Urdd ac y dygir benywod ymhob gwlad i gydweithrediad a brawdoliaeth agosach.

Pwyllgor y Canghennau.

Y mae Pwyllgor y Canghennau yn awyddus i ddod i gyffyrddiad mor agos ag y sy'n bosibl a phob cymdeithas y sydd wedi ymuno a'r Urdd a bydd iddynt groeshawu eu cydweithrediad cyfeillgar yn yr ymdrech.

Gohebiaeth.

Olygydd Annwyl,—

Fe fuasai'n dda pe gwnaem ni fel aelodau Urdd y Benywod rywbeth er darbwyllo pobl ieuainc ein Hysgolion Sul i ymaelodi yn ein Heglwysi. I'r amcan hwn medrem ffurfio dosbarthiadau Aelodaeth i'r ieuainc o 12 i 18, ac mewn gwasanaeth a gynhelir gan y Gweinidog, medrid derbyn y bobl ieuainc yma i'r Eglwys fel Aelodau a Thanysgrifwyr Iau (*Junior*) ar y dealltwriaeth y

cant eu derbyn yn Aelodau Cyflawn yn 18 mlwydd oed. Onid yw'r rhieni'n aelodau o'r eglwys, buasai yn naturiol rhaid gofyn am eu caniatad. Onid yw'r rhieni hyn yn mynychu unrhyw le o addoliad, buasai'r diddordeb a gymerir yn eu plant yn eu calonogi hwythau i ymuno a ni.

Y mae'r cynnig yn werth ei wneuthur.

AELOD O'R URDD.

Marwgofion.

MEDI'R 4, yn 65 mlwydd oed, Sarah Saunders Davies, Dolwern, Felinfach. Treuliodd ei blynyddoedd olaf gan mwyaf yn y gwely gan afiechyd, a dioddefodd lawer yn ddistaw a di-rwgnach, ond credwn na feddyliodd neb ei cholli mor annisgwyliadwy ag y gwnaed, oherwydd i bob ymddangosiad yr oedd lawer yn well, ac ar adegau fe'i gwelid hi ar yr aelwyd, ac o gwmpas y cartref clyd. Gwraig dawel yn llawn o synwyr cyffredin, a llawn yn ei chylch. Bu yn wraig dda a threfnus, yn fam ofalus a thyner. Mae dyffryn prydferth Aeron wedi bod yn enwog am ei wragedd da a'i famau rhinweddol, a thyma un o honynt wedi mynd o blith y rhai a garai ac a fu byw fel brenhines yn eu plith. Treuliodd y rhan fwyaf o'i bywyd yn y dyffryn, ac yng ngolwg yr hen gartref—Glanwern, un o hen aelwydydd hoff y dyffryn ac adnabyddus i gylch eangach na'r Sir, ac yn sicr un o hen gartrefi'r enwad. Y Sadwrn dilynol claddwyd ym mynwent Rhydygwin, yr angladd yn anghyhoedd, pryd y gwasanaethwyd gan y gweinidog. Gadawodd briod, tair merch, dau fab, chwaer a brodyr, a lluaws o berthynasau mewn galar dwys ar ol un a fu yn annwyl iawn iddynt. Cydymdeimlwn a'r teulu o dan yr ergyd trwm ac a'r perthynasau i gyd.

AR yr 11eg o Fedi, yn nhy ei chwaer, Maesyronnen, Cribyn, bu farw Hannah Lloyd, merch y diweddar John a Hannah Lloyd, Caehir, ger Cribyn, ar ol cystudd byr, yn 62 oed. Gadawodd ar ei hol un ferch, amryw frodyr a chwiorydd, a pherthynasau eraill. Claddwyd ei gweddillion ym mynwent Capel Cribyn dydd Sadwrn dilynol, pryd y gwasanaethwyd gan y Parch. D. Evans.

Nodion yr Eglwysi.

CAPEL CILIAU AERON—Llongyfarchiadau lawer i Miss Nina Davies, Foelallt ar ei gwaith yn ennill y radd o A.L.C.M. mewn cerddoriaeth. Nina sydd yn chwarae yr Organ yn Capel y Ciliau er's rhai blynyddoedd, a rhagorol iawn y gwna ei gwaith. Disgwyliwn ei gweled cyn bo hir yn chwarae yn ein Rehearsals, etc. *Pupil* yw Nina i Miss Nano Evans, L.L.C.M., Graigwen, Felinfach. Hefyd yr un llongyfarchiadau i Dr. T. L. Davies, Parc, yn awr yn Llundain. Graddiodd yn L.R.C.P., M.R.C.S., tua blwyddyn yn ol; ond yn ddiweddar ennillodd gydag anrhydedd y radd o M.B. (Caergrawnt). Rhagorol iawn. Ar rwydd hynt yr ä'r ddau hyn.

CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU.
(*Sefydlwyd gerllaw Castell Nedd, Hydref* 8, 1802).

Llywydd—Y Parch. John Islan Jones, M.A., Hindley.
Trysorydd—D. Martin Jones, Ysw., Y.H., Llandysul.
Ysgrifennydd—Y Parch. E. O. Jenkins, Llwynmarles, Llandysul.

— CYNHELIR —

Cyfarfodydd Chwarterol

Y GYMDEITHAS

Ym Mrondeifi, Llanbedr

Hwyr Mawrth a Mercher, Hydref 16 a 17, 1928.

Trefn y Cyfarfodydd :

Nos Fawrth am 6.30 : Y Parchn. T. Arthur Thomas, Llandysul a D. G. Rees, Trebanos.

Fore Mercher am 10 : Pwyllgor y Gymdeithas.

Nawn Mercher am 2 : The Rev. Miss Constance Harris, Aberdare (English) a'r Prifathro J. Park Davies, M.A., B.D., Caerfyrddin.

Hwyr Mercher am 6 : Y Parchn. H. H. C. Jones, B.A., Caerdydd ac E. R. Dennis. Aberdar.

Estyn Cynulleidfa Brondeifi dros y Gymdeithas
GROESO CYNNES I BAWB.

J. D. Lewis, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.

Crown 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers, 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. STEPHENSON, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original M.S. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, W.C. 2

YOUR CHILDREN'S EYESIGHT IS THEIR MOST VALUABLE POSSESSION.

If you have the slightest suspicion that your child is suffering in any degree from eye-strain, which may be indicated by headaches after a day at school, or by the child poring over a book with its head very close to the page, you should consult a qualified optician who will gladly offer you a candid opinion, and will most certainly not prescribe glasses unless absolutely necessary, after the most careful tests.

CECIL JONES, F.S.M.C., F.B.O.A., F.I.O. (London).

Is fully qualified to offer every service for the eyes at his sight-testing rooms, both at

26, Great Darkgate Street, Aberystwyth (Telephone 209)

And at JONES, JEWELLER, LLANDYSSUL.

:: Bradford House, Llandyssul ::

SUMMER and EARLY AUTUMN 1928

NEWEST GOODS IN LADIES', GENT'S and CHILDREN'S WEAR NOW IN STOCK.

MOURNING ORDERS IMMEDIATELY ATTENDED TO.

E. LLOYD JONES.



A Complete Banking Service

The Midland Bank offers exceptional facilities for the transaction of banking business of every description through over 1960 branches covering all important agricultural, commercial, industrial and residential districts in England and Wales.

Deposit accounts may be opened in amounts of £1 and upwards, and interest is allowed at current rates.

The Branch at 9 Lincoln Street, Llandyssul, is open every week-day, from 10 a.m. to 12 noon on Saturday and from 10 a.m. to 3 p.m. on other days.

MIDLAND BANK

LIMITED

HEAD OFFICE: 5 THREADNEEDLE ST., LONDON, E.C. 2

Affiliations: Belfast Banking Co. Ltd., Northern Ireland; The Clydesdale Bank Ltd., and North of Scotland Bank Ltd., Scotland; Midland Bank Executor and Trustee Co. Ltd.